



ADRODDIADAU ARHOLWYR TGAU

**TGAU (NEWYDD)
DAEARYDDIAETH**

HAF 2018

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn:

<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?!=en>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
Uned 1 Tirweddau Ffisegol a Dynol Newidiol	1
Uned 2 Materion Amgylcheddol a Datblygiad	6
Uned 3 Ymholiad Gwaith Maes	10

DAEARYDDIAETH

TGAU (NEWYDD)

Haf 2018

UNED 1 TIRWEDDAU FFISEGOL A DYNOL NEWIDIOL

Dyma oedd yr arholiad Uned 1 cyntaf ar y fanyleb newydd. Ar wahân i rywfaint o gynnwys newydd, y newid mwyaf sylweddol yn y fanyleb newydd yw'r pwyslais newydd ar amcanion asesu penodol (AA) lle mae pob eitem neu is-gwestiwn unigol yn targedu un AA yn unig a phob cwestiwn llawn yn cynnwys cydbwysedd penodol o'r amcanion o fewn ei strwythur. Mae hyn yn gysylltiedig â rhoi llawer mwy o bwysigrwydd i AA2, lle mae gofyn i ymgeiswyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am Ddaearyddiaeth i ddehongli, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a materion ac i wneud dyfarniadau. Mae pwysoliad AA2 wedi cael ei gynyddu i 35% o gyfanswm yr asesu yn y papur, ac mae gan y rhan fwyaf o'r cwestiynau hyn dariffau marciau uwch ac maent yn gofyn i'r ymgeiswyr ysgrifennu ateb estynedig. Mae perfformiad yr ymgeiswyr yn yr arholiad cyntaf hwn wedi cadarnhau'r disgwyliad mai hyn fyddai'r agwedd fwyaf heriol ar yr arholiad iddynt ac, yn ôl y disgwyl, roedd y cwestiynau AA2 yn tueddu i wahaniaethu'n dda iawn o fewn yr arholiad. Wedi dweud hynny, fodd bynnag, roedd llawer o enghreifftiau o atebion da i gwestiynau AA2 ac roedd bron bob ymgeisydd yn gallu gwneud ymgais resymol ac ennill rhai marciau yn y bandiau isaf, o leiaf, yng nghynllun marcio'r cwestiynau hyn. Mae'n amlwg bod AA2 yn un maes yn yr arholiad lle gall ymgeiswyr wella eu perfformiad yn y dyfodol, ond gwelwyd rhai arwyddion cadarnhaol a chalonogol bod llawer ohonynt wedi'u paratoi'n dda am hyn ac yn gallu cyrraedd y bandiau uwch.

Newid arall sydd wedi'i wneud i strwythur yr asesiad yw cynnydd yn lefel her rhai o'r cwestiynau sy'n targedu AA3, Sgiliau Daearyddol, lle ceir gofyniad i asesu sgiliau mathemategol ac ystadegol penodol, fel y nodir yn atodiad A y fanyleb. Mae rhai o'r cwestiynau hyn yn gofyn i ymgeiswyr wneud cyfrifiadau a dangos eu gwaith cyfrifo ac er bod hyn wedi'i wneud yn eithaf da yn y papur hwn, mae'n werth cofio bod amrywiaeth o dechnegau mwy heriol yn atodiad A y bydd angen i athrawon sicrhau eu bod yn rhoi sylw iddynt gan y byddant yn ymddangos mewn arholiadau yn y blynyddoedd nesaf.

Y newid mawr olaf oddi ar y fanyleb flaenorol yw cael gwared ar bapurau haenedig ac, ar y cyfan, teimlwyd bod y perfformiad ar bapur Uned 1 yn dda, a'i fod yn hygyrch i bron bob ymgeisydd; roedd yr ymgeiswyr gwannaf yn gallu dangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau a hefyd yn gallu cael marciau am rai o'r cwestiynau AA2 mwy heriol. Yn wir, ni welwyd dim cwestiynau yn y papur a oedd yn anodd i bawb neu lle'r oedd niferoedd mawr o ymgeiswyr wedi methu ag ennill marciau. Ar ben arall y sbectrwm gallu, roedd llawer o'r ymgeiswyr mwyaf galluog wedi manteisio ar y cyfle i ysgrifennu atebion trawiadol a digon soffistigedig yn aml i'r cwestiynau tariff uwch, a oedd yn galluogi arholwyr i roi marciau yn seiliedig ar yr amrediad llawn a ddyrennir yn y cynllun marcio.

Yn olaf, o ran y cwestiynau dewisol 3 a 4, roedd rhaniad tua 60:40 o blaid ymgeiswyr yn ateb cwestiwn 3, Tirweddau a Peryglon Tectonig dros gwestiwn 4, Peryglon Arfordirol a'u Rheolaeth, ond am ryw reswm, roedd hyn yn nes at 80:20 mewn canolfannau cyfrwng Cymraeg. Ar y cyfan, roedd y perfformiad yn yr opsiynau ychydig bach yn well gan yr ymgeiswyr a ddewisodd gwestiwn 3 na'r rhai a ddewisodd gwestiwn 4 – cofnodwyd marciau cymedrig uwch ar gyfer pob eitem ac eithrio eitem (a) lle'r oedd disgrifio strategaethau peirianeg galed ar yr arfordir yn fwy hygyrch nag arweddion stratolosgfyndd.

AA1.1 – Gwybodaeth

Mae cwestiynau AA1.1 yn tueddu i gludo tariff marciau is ac asesu ymgeiswyr tua gwaelod y llethr anhawster. Yn bron bob achos, roedd y marc cymedrig am gwestiynau AA1.1 yn fwy na hanner cyfanswm y marciau a ddyrannwyd, sy'n awgrymu bod yr ymgeiswyr wedi gweld y rhain yn eithaf hygyrch ar y cyfan. Yn C1b(ii), ysgrifennodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr am dirweddau mynyddig a'r effaith fwyaf cyffredin a ddisgrifiwyd oedd erydiad ar lwybrau troed, a sbwriel yn ail agos. Pan fyddai ymgeiswyr yn colli marciau, roedd hynny'n tueddu i fod am fethu â datblygu'r ymateb yn ddigonol i fodloni'r gorchymyn 'disgrifiwch un' yn y cwestiwn. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn llwyddo i enwi effaith ac yna naill ai'n rhestru rhai eraill neu'n methu â rhoi disgrifiad digonol o'u heffaith gychwynnol. Er na roddwyd marciau am hyn ynddo'i hun, roedd bron bob ymgeisydd yn enwi tirwedd o'u dewis i ddisgrifio'r effaith arni, naill ai fel math o dirwedd neu enw lle megis Eryri. Roedd yr ymgeiswyr nad oeddent yn gwneud hyn yn methu â chael marciau llawn am eu disgrifiad.

Cafwyd llawer o atebion rhagorol i C1ch(i), a'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiad cymwys o broses gweithred hydrologig mewn afonydd, a chafwyd ymateb yr un mor gryf i C2a(iv) lle gwelwyd gwybodaeth dda am effaith poblogaeth sy'n heneiddio yn y DU, a'r ymgeiswyr yn disgrifio amrywiaeth o heriau economaidd, cymdeithasol a chysylltiedig ag iechyd, er bod hyn yn aml yn ennyn barn eithaf ystrydebol am bobl oedrannus yn ein poblogaeth.

Fel y nodwyd uchod, yr unig gwestiwn lle'r oedd y wybodaeth ychydig yn llai cadarn, oedd C3a(ii) gan yr ymgeiswyr a oedd wedi dewis yr opsiwn Tirweddau a Pheryglon Tectonig. Roedd rhai'n methu â rhoi disgrifiad llawn o ddwy o arweddion stratologsfynydd mor gymwys â'r rhai a ddewisodd yr opsiwn Peryglon Arfordirol a'u Rheolaeth. Er i ni weld llawer o atebion da a oedd yn disgrifio naill ai siâp, cyfansoddiad, math o ffin platiau neu beryglon penodol yn gysylltiedig â'r arwedd hon, rhoddwyd marciau uwch i lawer o ymgeiswyr am yr eitem gywerth yn C4 a oedd yn gofyn iddynt ddisgrifio strategaethau peirianeg galed.

AA1.2 – Dealltwriaeth

Mae gan bron bob cwestiwn AA1.2 dariff marciau uwch ac fel rheol mae gofyn i'r ymgeiswyr 'esbonio pam' yn hytrach na disgrifio neu restru, sy'n golygu mwy o ofyniad gwybyddol. Mae gofyn iddynt wneud cysylltiadau rhwng ffactorau a chysylltu achosion ac effeithiau, ac roedd y cwestiynau hyn yn gwahaniaethu'n dda o fewn yr arholiad.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall y gair gorchymynnol 'esboniwch' oherwydd mae'n rhaid iddynt geisio gwneud y cysylltiadau hyn er mwyn cyrraedd bandiau uwch y cynllun marcio.

Roedd C1(ch)(ii) yn gofyn i'r ymgeiswyr wneud y cysylltiad rhwng prosesau afon a daeareg i esbonio ffurfiant rhaeadr. Roedd y marc cymedrig am y cwestiwn hwn yn gyfforddus o fewn band canol y cynllun marcio, sy'n dangos bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu dangos rhyw ddealltwriaeth o ffurfiant rhaeadr. Roedd y rhan fwyaf yn gallu esbonio bod rhaeadrau'n deillio o fandiau o graig galed a meddal sy'n cael eu herydu'n wahanol gan sgrafellu a gweithred hydrologig, ond roedd yr atebion yn aml yn tueddu i fod braidd yn arwynebol wrth esbonio'r cysylltiadau rhwng y ddaeareg a'r prosesau ac yn dangos diffyg manylder wrth esbonio neu'n anghytwys gan ganolbwyntio ar un neu'r llall o'r ddau newidyn. Roedd y llawer o atebion a oedd yn dangos dealltwriaeth dda yn gallu gwneud y cysylltiad a dangos sut, er enghraifft, mae gweithred hydrologig yn y plymbwll yn gallu erydu'r graig feddalach yn haws oherwydd egni uchel y dŵr yn llifo oddi ar y capgraig neu sut mae darnau o'r capgraig caled sydd wedi cwmpo'n cael eu defnyddio ym mhroses sgrafellu i dandorri'r graig feddal yn y mur cefn i gynorthwyo'r rhaeadr i symud yn ôl. Y soffistigeiddrwydd pellach hwn yn y gallu i esbonio cysylltiadau sy'n galluogi'r ymgeiswyr mwyaf galluog i sgorio marciau uwch, ac roedd yr ymgeiswyr a arhosodd yn y band canol yn tueddu i ailchwydu esboniadau parod

o ffurfiant rhaeadrau heb ateb y cwestiwn yn llawn. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr yn derbyn y gwahoddiad i ddefnyddio diagram ac roedd hyn yn amlwg yn eu helpu i feddwl ac i esbonio ond dylid nodi nad oedd hyn yn ofyniad a chafodd llawer o ymgeiswyr farciau llawn heb ddefnyddio diagram. Roedd y symudiad at AA unigol i bob cwestiwn yn golygu nad oedd marciau ar gael yn y cynllun marcio am y diagram ei hun, oni bai ei fod yn ategu dealltwriaeth.

Roedd yr ymgeiswyr yn gweld C2(b)(iii) ychydig yn fwy heriol ond roedd llawer hefyd yn gallu sgorio marciau yn y band canol, gan ddangos rhyw ddealltwriaeth o'r rhesymau dros y dirywiad yn y gwasanaethau a ddarperir yn ardaloedd gwledig Cymru. Eto, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu cyrraedd band canol y cynllun marcio ac yn tueddu i gysylltu dirywiad gwasanaethau â chynnydd ym mhwysigrwydd yr ardal drefol ond roedd eu hatebion yn aml yn dangos diffyg dyfnder a manylder, ac yn rhoi esboniadau rhannol yn unig. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf galluog a roddodd atebion yn y band uchaf, ac roedd llawer o'r rhain, yn aml yn talu sylw i'r awgrym a roddwyd yn y cwestiwn blaenorol ac yn cysylltu'r mater â'r continwwm trefol-gwledig lle mae ardaloedd trefol yn dod yn fwy dylanwadol sy'n golygu bod gwasanaethau'n crynhoi ynddynt. Roeddent hefyd yn cysylltu'r mater â gwrthdrefoli a'r cynnydd mewn cymudo a pherchnogaeth ail gartref sy'n lleihau poblogaethau ardaloedd gwledig yn ystod y dydd gan arwain at lai o alw am wasanaethau yn yr ardaloedd hyn, sy'n eu gwneud yn llai dichonadwy. Drwy hyn, roedd ymgeiswyr yn gallu creu cadwyni rhesymu i'w galluogi i roi esboniadau llawn a manwl a oedd yn aml yn eithaf soffistigedig.

Mae'r pwyntiau hyn hefyd yn berthnasol i gwestiynau 3(b)(iii) a 4(b)(iii) lle'r oedd rhaid i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o'r berthynas rhwng lefel datblygiad a pha mor agored i niwed yw pobl pe bai daearyddol neu lifogydd arfordirol yn digwydd, yn ôl eu trefn. Eto, roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gwneud y cysylltiad ac yn dangos rhyw ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng cyfoeth a natur agored i niwed, ond roeddent yn tueddu i gollu'r cyfle i esbonio'n llawn pam a chyrraedd y band uchaf. Roedd y rhan fwyaf yn cyfeirio'n sylfaenol at ansawdd cynllun ac adeiledd adeiladau a lefelau paratoi rhwng gwledydd mwy a llai datblygedig gan ddefnyddio termau ansoddol megis 'gwell' a 'tlotach' ond yn methu â mynd y tu hwnt i hyn i ddangos pam mae hyn yn arwain at amrywiaeth yn yr effaith. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf galluog yn gallu cyfeirio at wahanol fathau o gynlluniau adeiladau neu at strategaethau penodol sy'n dangos pam mae pobl yn aml yn fwy diogel mewn gwledydd mwy cyfoethog ac ar y llaw arall, at y mathau o ddefnyddiau adeiladu a ddefnyddir mewn cymunedau tlotach ac yn aml at y diffyg rheoliadau sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed mewn daearyddol neu ddigwyddiadau llifogydd. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn cyflawni hyn drwy ddefnyddio enghreifftiau penodol i roi cyd-destun lle i'w dealltwriaeth, ond eto, hyd yn oed lle'r oedd hyn yn amlwg wedi eu helpu i lunio ateb cydlynol dylid pwysleisio nad oedd hyn yn ofynnol a llwyddodd llawer i gyrraedd y band uchaf heb wneud hyn.

AA2 – Cymhwysiad

Fel y disgwyliwyd, yr amcan asesu hwn a gyflwynodd yr her fwyaf i'r ymgeiswyr ac roedd yn gwahaniaethu'n effeithiol rhwng ymgeiswyr a gafodd farciau uchel ac isel. Mae AA2 yn gofyn iddynt gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am ddaearyddiaeth mewn sefyllfaoedd sy'n aml yn anghyfarwydd a dylid nodi bod pedair elfen i hyn, a'u bod i gyd wedi'u hasesu mewn eitemau gwahanol yn yr arholiad, ac mai dyma fydd y patrwm yn y dyfodol. Rhaid i ymgeiswyr ddehongli, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a materion daearyddol a gwneud dyfarniadau, ac mae pob un o'r rhain yn dangos sgiliau meddwl a galluoedd gwybyddol eithaf soffistigedig ar lefelau uchaf y cynlluniau marcio yn y cwestiynau hyn. Roedd yn braf gweld bod llawer o ymgeiswyr wedi paratoi'n dda am y cwestiynau hyn ac wedi eu hateb yn dda – cafwyd llawer o enghreifftiau o waith rhagorol yn yr arholiad – ond hwn o hyd yw'r maes y dylai athrawon ganolbwytio arno'n bennaf i gynorthwyo eu disgyblion i wella eu perfformiad yn y dyfodol.

Roedd C1(b)(i) yn gofyn i ymgeiswyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dirweddau i ddadansoddi ffotograff a disgrifio arweddion nodedig y dirwedd yn y ffotograff. Dylid nodi nad oes ateb cywir nac anghywir yn yr amgylchiadau hyn ac mae'r fanyleb yn gofyn i'r ymgeiswyr werthfawrogi agweddau megis defnyddio tir, diwylliant, daeareg neu llystyfiant wrth ddadansoddi tirweddau. Dim ond tri marc a oedd ar gael am y cwestiwn felly roedd yr ymgeiswyr a ganolbwyntiodd ar unrhyw un o'r agweddau hyn yn gallu cyrraedd band uchaf y cynllun marcio a llwyddodd llawer ohonynt i wneud hynny. Er enghraifft, roedd ymgeiswyr yn disgrifio'r dirwedd fel un amaethyddol, gan sôn am y defaid yn pori a'r borfa arw, a disgrifiodd ambell un gyfyngiadau'r ardal o ran ffermio. Roedd rhai'n gallu awgrymu bod y cae y tu ôl i'r wal gerrig sych wedi cael ei wella mewn rhyw ffordd gan fod lliw'r gwair yn dywyllach. Roedd eraill yn canolbwyntio ar yr agwedd ddiwylliannol drwy ddisgrifio'r ardal fel un wledig neu anghysbell â hen dai traddodiadol yn y pentref; awgrymodd rhai fod y pentref wedi'i adeiladu yno am ei fod yn cael cysgod gan y bryn y tu ôl iddo. Hefyd, roedd llawer o ddisgrifiadau o'r llystyfiant fel grug a gweundir. Roedd ymgeiswyr a oedd wedi rhoi rhestr syml o arweddion o'r ffotograff heb geisio eu cysylltu â'i gilydd nac awgrymu sut yr oeddent yn nodedig yn dal i ennill marciau yn y band isaf.

Roedd C1(c)(iii) yn gofyn i'r ymgeiswyr werthuso strategaethau ar gyfer rheoli tirweddau yng Nghymru. I werthuso'n dda, mae angen gwerthfawrogi manteision ac anfanteision un strategaeth, neu gymharu dwy strategaeth neu fwy â'i gilydd. Yn anffodus, dim ond ychydig o enghreifftiau a gafwyd o ymgeiswyr yn llwyddo i wneud hyn ac o ganlyniad, roedd llawer iawn o'r atebion wedi'u casglu ym mand canol y cynllun marcio am eu bod yn disgrifio un strategaeth neu fwy, yn aml yn eithaf da, ond yn methu â rhoi gwerthusiad o'r math hwn. Roedd y rhan fwyaf yn fodlon i ddisgrifio un strategaeth ac awgrymu sut neu pam y byddai'n helpu i reoli tirwedd, ond heb geisio awgrymu unrhyw anfanteision iddi na'i chymharu ag un arall. Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ysgrifennu am strategaethau eithaf syml megis darparu biniau sbwriel neu atgyfnerthu llwybrau, neu ddatblygu'r enghraifft yn yr adnodd o ddarparu arwyddion effeithiol. Mewn llawer o ffyrdd, mae dewis y strategaeth ei hun yn amherthnasol oherwydd mae'r marciau'n cael eu rhoi am y gallu i ddefnyddio tystiolaeth sy'n deillio o wybodaeth a dealltwriaeth o'r strategaeth a ddewiswyd i werthuso i ba raddau y gallai fod yn effeithiol.

Mae'n debyg mai C2(c)(ii) oedd y cwestiwn mwyaf heriol yn yr arholiad, ac o ganlyniad, hwn oedd â'r tariff marciau uchaf. Roedd hefyd yn gysylltiedig â'r asesiad o gywirdeb ysgrifennu'r ymgeiswyr. Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn iddynt wneud dyfarniad yn seiliedig ar dystiolaeth a roddwyd yn yr adnodd a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth ddaearyddol ehangach, ynghylch a yw pob dinas global yn wynebu'r un heriau. Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn defnyddio'r adnoddau'n eithaf effeithiol ac yn cymharu Llundain â Mumbai yn nhermau mater darpariaeth tai a digartrefedd, ac roedd y rhan fwyaf yn nodi, er bod y problemau'n debyg, bod gwahaniaeth mawr o ran graddfa rhwng y ddwy ddinas. Roedd llawer iawn o'r ymgeiswyr yn gallu archwilio'r ddwy ochr i'r ddadl a ffurfio casgliad yn y pen draw ynghylch a oeddent yn cytuno â'r gosodiad ai peidio, a oedd yn dangos bod eu hathrawon wedi eu paratoi'n effeithiol am y math hwn o gwestiwn ac mai'r manylder, ansawdd yr ymhelaethu a lefel y soffistigeiddrwydd yn y ddadl a oedd yn eu dal yn ôl ym mandiau isaf y cynllun marcio. Roedd hyn i'w ddisgwyl yn y math hwn o gwestiwn ar bapur heb haenau, felly roedd y cwestiwn yn gwahaniaethu'n dda. Fodd bynnag, cafwyd rhai enghreifftiau da iawn lle'r oedd ymgeiswyr yn gallu dadansoddi a gwerthuso'r adnoddau a sôn hefyd am heriau pellach sy'n wynebu dinasoedd global, megis cyflogaeth, gan dalu sylw i'r awgrym a roddwyd yn y cwestiwn blaenorol am yr economi anffurfiol, materion trafndiaeth a'r heriau sy'n wynebu llawer o ddinasoedd global o ymdrin â gormodedd o fudo a lleihau tlodi ac amddifadedd.

Roedd Cwestiynau 3(a)(iii) a 4(a)(iii) yn gofyn i'r ymgeiswyr ddadansoddi gwybodaeth mewn map i awgrymu pam mae pobl yn agored i niwed gan lifoedd pyroclastig a llifogydd arfordirol yn ôl eu trefn. Y tu hwnt i ddealltwriaeth sylfaenol o natur y ddau berygl hyn, ni roddir dim marciau am eu disgrifio, ac roedd rhaid i'r ymgeiswyr edrych ar y map a chanfod rhesymau pam mae pobl Napoli a Kingston-upon-Hull yn fwy agored i niwed. Yn y ddau achos, roedd yn fater o agosrwydd at y perygl a thopograffeg. Roedd yr ymgeiswyr a gafodd farciau yn y bandiau uchaf yn gallu esbonio y byddai'r llif pyroclastig yn teithio'n gyflym i lawr ochrau serth Mynydd Vesuvius ond hefyd bod Napoli wedi'i lleoli ar dir isel rhwng Quarto a'r llosgfynydd a fyddai'n sianelu'r llif i mewn i'r ddinas. Yn achos Hull, mae'r pwyntiau allweddol yn cynnwys lefel isel y tir a'r ffaith y byddai llifogydd arfordirol yn sianelu i fyny moryd yr Humber i mewn i'r ddinas. Fodd bynnag, dewisodd cryn dipyn o ymgeiswyr ganolbwyntio ar lifogydd afon yma, er bod y cwestiwn yn gofyn yn glir am lifogydd arfordirol.

Yn olaf, roedd cwestiynau 3(c) a 4(c) yn gofyn i'r ymgeiswyr lunio casgliad o ffotograff. Cafwyd llawer o atebion o natur eithaf cyffredinol yn disgrifio effeithiau daeargrynfeydd neu stormydd arfordirol a allai fod yn berthnasol yn unrhyw le, ond roedd y llawer o atebion gwell yn sôn am arweddion penodol yn y ffotograff ac yn rhoi ystyr iddynt, ac yn llunio casgliadau am effeithiau o fewn cyd-destun y lleoedd a ddangoswyd.

AA3 – Sgiliau

Yn gyffredinol, roedd y cwestiynau hyn yn hygyrch i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Roedd y rhan fwyaf yn gallu dangos sgiliau map da drwy nodi'r cyfeirnod grid cywir, mesur y pellter yn fanwl gywir ac adnabod patrymau cyfuchlineddau i ddisgrifio'r tir yng nghwestiwn 1. Hefyd, cafwyd ymateb da ar y cyfan i'r arddull cwestiwn newydd yn seiliedig ar Atodiad A y fanyleb ac roedd yn braf gweld bod bron bob ymgeisydd wedi gallu dewis a rhoi cyfiawnhad syml ynglŷn â'r math mwyaf priodol o graff i gynrychioli'r data a ddangosir yn C1(c). Lle'r oedd gofyn iddynt wneud cyfrifiad, fel yn C3(b)(ii) a C4(b)(ii), roedd llawer yn dangos sgiliau mathemategol da ac yn dangos eu gwaith cyfrifo, er bod yr atebion i C3 ychydig bach yn well gan eu bod yn fwy cyfforddus wrth wneud cyfrifiad fesul cam syml i gyfrifo'r gwahaniaeth yn y raddfa log a'r cynnydd cysylltiedig yng nghrynu'r daeargryn nag wrth wneud rhannu syml i gyfrifo amllder stormydd Categori 5 yn UDA.

DAEARYDDIAETH

TGAU (NEWYDD)

Haf 2018

UNED 2 MATERION AMGYLCHEDDOL A DATBLYGIAD

Mae'r newid i bwysoliad cydrannau AA y TGAU newydd yn bwynt pwysig i'w bwysleisio i ganolfannau, yn enwedig AA2 (sy'n werth 35%). Defnyddiwyd cwestiynau arddull cymhwysio yn y papur hwn fel cwestiynau 2, 3, 4 a 6 marc. Cafodd llawer o ymgeiswyr rywfaint o anhawster i gael marciau yn y bandiau uchaf.

Roedd yr arholiad yn brawf effeithiol o wybodaeth, dealltwriaeth, cymhwysio gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau. Roedd techneg arholiad, fel arfer, yn hollbwysig er mwyn llwyddo. Roedd y perfformiad yn dda, ac yn rhesymol gyson ar draws pob cwestiwn; cafwyd yr atebion cryfaf ar gyfer Themâu Opsiynol 3 a 4.

AA1.1 Gwybodaeth

Mae cwestiynau gwybodaeth AA1.1 yn werth 15% o gyfanswm pwysoliad yr asesiad. Mae gan y cwestiynau hyn dariff marciau is (1-3 marc) o'u cymharu â chwestiynau eraill. Roedd hyn yn gryfder mewn rhai meysydd, yn enwedig C3a(i) a C4a(i) lle'r oedd gofyn i'r ymgeiswyr ddiffinio dau derm allweddol.

Fodd bynnag, roedd llawer o'r atebion i gwestiynau eraill AA1.1 yn methu â sgorio marciau llawn. Er enghraifft, yn C2a(ii) roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr yn methu â nodi dau o gyfyngiadau defnyddio CMC i fesur datblygiad economaidd – cafwyd llawer o atebion gwag neu 'ddyfalu anghywir'. Roedd hyn yn dangos diffyg gwybodaeth fanwl yn y maes hwn sydd yn glir yn y fanyleb ar dudalen 17 – 'Sut mae cyfoeth cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio (er enghraifft, IGC, CMC) fel mesur datblygiad cymharol a pham mae cyfyngiadau yn gysylltiedig â'r dystiolaeth hon o ddatblygiad'.

Yn C3b(i) nifer cymharol fach o ymgeiswyr oedd yn gallu rhoi tri ffactor sy'n arwain at newid mewn cyfraddau genedigaeth, er bod y rhan fwyaf yn gallu rhoi un. Yn C2a(iii) roedd gofyn i'r ymgeiswyr gwblhau paragraff am CMC. Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i gwblhau o leiaf 2/3 ateb yn gywir.

AA1.2 Dealltwriaeth

Mae cwestiynau AA1.2 yn werth 25% o gyfanswm pwysoliad yr asesiad. Mae gan y cwestiynau hyn dariff marciau rhwng 2 - 8 marc. Roedd y cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar asesu dealltwriaeth ymgeiswyr o brosesau, lleoedd ac amgylcheddau ac roeddent yn gwahaniaethu'n dda.

Ar gyfer cwestiynau â thariff marciau o 2, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu sgorio o leiaf un marc. Fodd bynnag, roedd C1c(iii) yn arbennig o anodd i'r ymgeiswyr, a dim ond nifer cyfyngedig o ymgeiswyr a oedd yn gallu sgorio marciau llawn. Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr roi un rheswm pam bydd dwyster stormydd efallai yn cynyddu o ganlyniad i newid hinsawdd. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu rhoi rheswm sylfaenol - roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn cynnwys sôn am dymheredd, yn hytrach na thymheredd y môr neu'r aer yn benodol, ac felly'n methu ag ennill marciau. Roedd cyfran uchel o'r ymgeiswyr a roddodd reswm dilys yn methu ag esbonio pam mae'r rheswm hwn yn cynyddu arddwysedd stormydd.

Yn y cwestiynau 4 marc, megis C1a(iv), C3c(iii) a C4c(ii), roedd llawer o ymgeiswyr yn methu ag ennill marciau llawn gan fod eu hatebion yn rhoi datganiadau syml heb ddangos y ddealltwriaeth sydd ei hangen ar gyfer ymateb Band 2. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr atebion ar frig Band 1 (2 farc).

Yn C1a(iv) roedd gofyn i'r ymgeiswyr esbonio pam mae creiddiau iâ yn dystiolaeth o newid hinsawdd. Roedd nifer o ymgeiswyr yn ansicr ynglŷn â beth oedd creiddiau iâ. Ysgrifennodd llawer am greiddiau iâ'n toddi a allai ddangos cynhesu byd-eang, gan ddrysu rhyngddynt ac encilio rhewlifol. Nid oedd yr atebion hyn yn haeddu marc. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cyrraedd Band 1 (2 farc) ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr hyn yn sôn am ddal nwyon mewn creiddiau iâ, ond yn methu â gwneud cysylltiad rhwng cyfansoddiad y craidd iâ a newid hinsawdd, sy'n bwysig i ddeall y cydberthnasoedd. Byddai gwneud hynny wedi caniatáu i'r ymgeiswyr ennill marciau Band 2.

Roedd perfformiad ar y cwestiynau cymharu h.y. C3c(iii) a C4c(ii) yr un mor dda â'i gilydd. Eto, roedd atebion y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cyrraedd brig Band 1. Ar gyfer C3c(iii) roedd gofyn i'r ymgeiswyr esbonio pam mae'n anodd cynyddu'r canran o ferched mewn addysg yn Affrica Is-Sahara. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn sôn yn gyffredinol am addysg, heb gyfeirio at ferched yn benodol. Roedd yr atebion gorau'n dangos cysylltiad clir rhwng y ffactor(au) a pham mae hynny'n atal addysg merched yn Affrica Is-Sahara.

Ar gyfer C4c(ii) cafwyd rhai atebion rhagorol a oedd yn rhoi sylw i ffynhonnell allyriadau a pham roedd yn anodd i lywodraethau, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, i leihau allyriadau. Fodd bynnag, dim ond rhesymau sylfaenol a roddodd rhai ymgeiswyr ynglŷn â pham mae'n anodd i lywodraethau leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Roedd yr ymgeiswyr yn methu â gwneud cysylltiad rhwng y ffactor a pham mae'n atal lleihau. Roedd yr ymgeiswyr hefyd yn sôn am ffactorau mwy lleol yn hytrach nag anawsterau llywodraethau i gydweithio i ymdrin â mater byd-eang.

Roedd C2c(iv) yn werth cyfanswm o 11 marc, gan gynnwys y 3 marc am ysgrifennu'n gywir. Roedd y cwestiwn yn gofyn i'r ymgeiswyr esbonio pam byddai cynnydd mewn poblogaeth a newid amaethyddol yn arwain at alw cynyddol am ddŵr. Roedd yn braf gweld bod cyfran uchel o'r ymgeiswyr yn defnyddio'r adnoddau i'w helpu â'u hateb. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn dangos diffyg dealltwriaeth drwyadl, manylder ac ymhelaethu ar yr esboniad sydd eu hangen i gael marciau'r band uwch. Roedd llawer yn ysgrifennu'n gyffredinol am y ffaith bod mwy o bobl ag angen mwy o ddŵr i oroesi a bod angen rhoi dŵr i fwy o blanhigion. Roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn teimlo'n anghytwys; roedd mwy ohonynt yn trafod pam mae twf poblogaeth yn arwain at alw cynyddol am ddŵr. Roedd yr atebion mwyaf cyffredin a welwyd yn cyfeirio at fwy o angen dŵr i olchi, coginio a'i ddefnyddio'n ddomestig mewn ffyrdd eraill. Ni chafwyd atebion cystal ynglŷn â'r newid amaethyddol. Dylai ymgeiswyr ystyried cynllunio eu hatebion yn gryno i sicrhau bod gan yr ateb ddiben, ei fod yn drefnus, ei fod wedi'i strwythuro'n rhesymegol a'i fod yn dangos y ddealltwriaeth drwyadl sydd ei hangen i gael marciau'r bandiau uwch. Roedd cywirdeb yr ysgrifennu'n rhesymol dda, ac roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn dangos cryn dipyn o gywirdeb ac yn sgorio 2 farc. Mae angen i ganolfannau annog ymgeiswyr i ddangos amrywiaeth ehangach o dermau arbenigol, yn ogystal â gadael amser i ddarllen drwy'r ateb i wirio cywirdeb eu hysgrifennu.

AA2 Cymhwyso Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Cwestiynau AA2 sydd wedi gweld y newid pwysoliad mwyaf yn y cwrs TGAU newydd – nawr maent yn werth 35% o gyfanswm pwysoliad yr asesiad. Defnyddiwyd cwestiynau arddull cymhwyso yn y papur hwn fel cwestiynau 2, 3, 4 a 6 marc. Gallai'r mathau hyn o gwestiynau fod hyd at 8 marc yng nghyffwrdd y dyfodol. Cafodd llawer o ymgeiswyr rywfaint o anhawster i gael marciau yn y bandiau uchaf wrth gael eu hasesu ar gymhwyso gwybodaeth a

dealltwriaeth mewn cyd-destunau anghyfarwydd. Fodd bynnag, roedd yn braf gweld bod ymgeiswyr llai galluog yn gallu cael marciau'n rheolaidd. Drwy wneud defnydd cyfyngedig o'r adnoddau a ddarparwyd, roeddent yn gallu ennill marciau Band 1 ac, â rhywfaint o gymhwys, Band 2.

Mae'r rhan fwyaf o gwestiynau AA2 yn cyd-fynd ag adnoddau a bydd hyn yn parhau ar gyfer cwestiynau AA2 tariff uwch yng nghyffwrdd y dyfodol. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi defnyddio'r adnoddau hyn yn dda yn eu hatebion. Fodd bynnag, yn C1ch(ii) a C2ch, roedd llawer o ymgeiswyr wedi copïo o'r adnoddau heb **gymhwys** eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth at yr adnoddau hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gwneud dyfarniad; fodd bynnag, dim ond sylw sydyn oedd hwn yn aml e.e. 'Cafodd Corwynt Matthew effaith ddinistriol ...'. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yna'n methu â defnyddio'r adnoddau i ddangos i ba raddau yr oeddent yn cytuno. Yr atebion a gafodd eu gwobrwyo orau oedd y rhai a oedd yn amodi pam, yn aml drwy grynhoi'r effeithiau allweddol. Mae gwneud penderfyniadau a chymhwys dealltwriaeth at dystiolaeth o adnoddau eto'n un o'r newidiadau mwyaf yn y fanyleb newydd. Mae angen i ganolfannau dreulio amser yn ymarfer cwestiynau o'r arddull hwn ac yn dangos i ymgeiswyr sut i ddatblygu atebion newydd er mwyn cyrraedd y bandiau uchaf.

Roedd C2(b) yn gofyn i'r ymgeiswyr awgrymu un ffordd mae'r ffotograff yn dangos bod China yn cau'r bwloch datblygiad. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr fod Toys 'r' Us a McDonalds yn gwmnïau amlwladol, ond nid oedd y mwyafrif yn gallu datblygu hyn ac awgrymu sut roedd cyflwyno'r cwmnïau hyn yn cau'r bwloch datblygiad.

Roedd C3c(i) a C4c(i) yn ddau gwestiwn a atebwyd yn dda. Enillodd llawer o ymgeiswyr farciau llawn ar gyfer y cwestiynau hyn. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu nodi goblygiadau o'r ffotograffau ac ymhelaethu ar hyn i ennill ail farc.

Yn C3a(iv) a C4a(iv) roedd yr ymgeiswyr yn dda am greu cysylltiadau ac adnabod patrymau. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu dadansoddi rhai o'r cydberthnasoedd rhwng dangosyddion. Cafodd rhai cysylltiadau da eu defnyddio'n effeithiol yma. Fodd bynnag, ychydig o ymgeiswyr a ddadansoddodd y tueddiadau'n ddigon manwl i gyrraedd marciau'r band uwch. Cafodd y cynllun marcio ei ehangu i ganiatáu i ymgeiswyr gyrraedd bandiau uwch drwy ganiatáu rhai awgrymiadau o pam mae'r cysylltiadau'n bodoli. Fodd bynnag, ar gyfer cyfresi'r dyfodol, dylai dadansoddiadau ganolbwyntio ar graffu manwl ac ar wneud cysylltiadau. Efallai y gallai rhai ymgeiswyr hefyd ystyried anomaleddau neu achosion afreolaidd yn eu dadansoddiad. Ni fydd angen rhesymau dros y cysylltiadau/patrymau hyn. Dylid cymryd amser i ddarllen geiriau gorchmynnol megis "dadansoddwch" ac "i ba raddau" yn ofalus er mwyn cyflawni ateb Band 3.

AA3 Sgiliau

Mae cwestiynau AA3 Sgiliau yn werth 25% o gyfanswm pwysoliad yr asesiad. Yn gyffredinol, mae'r maes hwn yn gryfder. Roedd gallu'r ymgeiswyr yn rhesymol gadarn yn y rhan fwyaf o'r meysydd sgiliau a aseswyd, gan gynnwys C1a(i) - darllen graff llinell, C1c(i) - disgrifio tueddiadau ar graff bar, C2a(i) - cyfrifo'r amrediad, C3a(ii) a C4a(ii) - cyfrifo'r canolrif a C3c(i) a C4(b) - cyfrifo'r canran. Fodd bynnag, methodd rhai ymgeiswyr â sgorio'r ddau farc drwy beidio â chynnwys eu gwaith cyfrifo clir mewn cwestiynau megis C1c(ii) a C2a(ii). Roedd C2c(i) yn gwestiwn a atebwyd yn eithaf gwael gan fod llawer o ymgeiswyr yn methu ag adnabod map coropleth. Roedd rhai ymgeiswyr heb hyd yn oed roi cynnig ar y cwestiwn hwn.

Roedd Cwestiwn 2c(ii) yn heriol i lawer o'r ymgeiswyr. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr awgrymu sut gellid gwella'r dechneg sy'n cael ei defnyddio i ddangos data. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi un ffordd o addasu'r map; fodd bynnag, dim ond ychydig o'r ymgeiswyr oedd yn gallu rhoi mwy nag un ffordd. Mae elfennau ar sgiliau ar y fanyleb sydd yr un mor heriol a allai ymddangos yng nghyfresi'r dyfodol.

DAEARYDDIAETH

TGAU (NEWYDD)

Haf 2018

UNED 3 YMHOLIAD GWAITH MAES

Hon oedd blwyddyn gyntaf yr Asesiad Di-arholiad newydd Uned 3 ac roedd llawer o bethau cadarnhaol i'w nodi. Roedd yr enghreifftiau gorau'n cynnwys:

- Sgriptiau trefnus wedi'u cyflwyno'n dda, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth 'portffolio' ychwanegol.
- Cyfeirio'n glir a phenodol at eu hymchwiliadau eu hunain a phrosesu hyn gan ddefnyddio datganiadau meintiol neu ansoddol.
- Dewis technegau graffigol addas a'u cwblhau'n dda.
- Dangos dealltwriaeth drwy gynnig rhesymau credadwy dros y patrymau neu'r tueddiadau a welwyd.

Hefyd, roedd rhai meysydd y dylai canolfannau eu hystyried ar gyfer gwelliant pellach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Nid yw rhai canolfannau wedi helpu ymgeiswyr drwy drefnu a chydgasglu'r llyfryn atebion yn wael, yn enwedig cynnwys gwybodaeth ychwanegol o'u hymchwiliadau eu hunain.
- Mewn gormod o achosion, roedd tabl data wedi'i hepgor sy'n creu problemau o ran asesu graff cywir a chyflawn. Mewn achosion eraill, rhaid i ymgeiswyr fod yn ofalus i beidio â chynnwys data sy'n amherthnasol i'r graff y maent yn mynd i'w gynhyrchu.
- Os oes angen graffiau neu fapiau, dylid eu lluniadu ar y tudalennau a ddarperir yn y llyfryn atebion.
- Byddai canolfannau'n elwa o edrych ar fanylion technegau graffigol gan ddefnyddio'r dull ACC (addas, cywir, cyflawn) a'r dull GELT (graddfa, echelinau, labeli, teitl).
- Mae angen i ymgeiswyr dalu mwy o sylw i'r geiriau gorchmynnol ym mhob cwestiwn fel eu bod yn defnyddio eu portffolio mewn modd mwy meddylgar ac yn dehongli'r hyn y maent wedi'i ddysgu yng nghyd-destun y cwestiwn sy'n cael ei ofyn yn hytrach na chopio neu ailchwydu nodiadau'n ddifeddl. Roedd yr asesu ar fandiau uwch yn gwahaniaethu'n glir rhwng atebion 'cyffredinol' a rhai a oedd yn cynnwys gwybodaeth fwy 'penodol'.
- Rhaid i ymgeiswyr esbonio cryfderau a gwendidau eu technegau data, heb roi sylwadau cyffredinol. Er enghraifft, 'un o gryfderau siart cylch yw ei fod yn syml i edrych arno.'

C1(a) - AA1.2 : 4 marc

Yn gyffredinol roedd hwn wedi ei ateb yn dda a'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cael marciau Band 2. Roedd yr ymgeiswyr gorau'n gallu cysylltu eu hatebion â materion penodol o'u gwaith maes, yn aml gan gynnwys enghreifftiau o'r hyn yr oeddent wedi'i wneud yn ystod y gwaith maes.

Roedd bron bob ymgeisydd yn defnyddio dibynadwyedd data neu gyfrifo cyfartaleddau fel rhesymau ond roedd rhai'n methu â chysylltu'r ymateb generig hwn â'r cwestiwn. Mae llifoedd gwynt, cyflymder afon, traffig, neu gerddwyr i gyd yn amrywio dros amser ac yn amrywio'n ofodol. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu gwneud y cysylltiad hwn ond llai a oedd yna'n gallu rhoi rheswm gan ddefnyddio eu profiad gwaith maes eu hunain. Er enghraifft, mae arllwysiad afon yn cynyddu wrth fynd i lawr yr afon oherwydd mae maint y dalgylch yn cynyddu wrth i fwy o lednentydd ymuno â'r brif afon.

C1(b) - AA2 : 6 marc

Roedd ansawdd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn trafod samplu systematig ac roedd yr ymgeiswyr gorau'n cysylltu hyn â manylion eu gwaith maes eu hunain i ennill marciau Band 3. Er enghraifft, roedd ymgeiswyr yn cyfeirio eu hatebion yn glir â brawddegau megis 'y cryfder mwyaf oedd...' a 'fodd bynnag, un gwendid sylweddol oedd...'

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau cyffredinol samplu megis arbed amser ac osgoi tuedd ond roedd llawer yn ei chael yn anodd egluro'r rhain drwy sôn am gryfderau neu wendidau penodol eu gwaith maes eu hunain. Er enghraifft, roedd llawer o ymgeiswyr yn nodi mai un o wendidau samplu systematig ar hyd afon yw nad yw pob safle'n hygyrch, ond roedd yn syndod cyn lleied ohonynt a oedd yn egluro hyn ag enghraifft neu'n gallu esbonio pam roedd hyn yn gwneud eu canlyniadau'n llai dibynadwy.

Roedd yn ymddangos bod llawer o ymgeiswyr yn ysgrifennu am samplu haenedig a systematig fel petaent yr un peth. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd myfyrwyr a oedd yn honni eu bod wedi defnyddio samplu haenedig yn ysgrifennu am samplu systematig mewn gwirionedd.

C1(c) - AA2 : 6 marc

Roedd y cwestiwn hwn yn gwahaniaethu rhwng canolfannau ac roedd yn glir mewn rhai achosion nad oedd canolfannau wedi defnyddio data eilaidd, er gwaethaf y ffaith bod deall sut i'w defnyddio wedi'i nodi fel cynnwys yn y fanyleb.

Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ennill marciau Band 2. Roedd yr ymgeiswyr gorau'n gallu trafod manylion ynglŷn â defnyddio data eilaidd. Er enghraifft, defnyddiwyd data cyflymder i gymharu'r newidiadau mewn llif ar draws safleoedd ac ar draws gwahanol ffynonellau. Fodd bynnag, cafodd llawer o ymgeiswyr farciau Band 1 o ganlyniad i atebion arwynebol neu gyfyngedig.

Roedd yr atebion gorau'n cyfeirio at ffynonellau penodol o ddata eilaidd (megis gwefan wedi'i henwi neu flwyddyn adroddiad wedi'i gyhoeddi) ac yna'n nodi cryfderau a gwendidau penodol a oedd wedi effeithio ar eu gwaith maes hwy. Er enghraifft, defnyddio gwefan dywydd y BBC cyn y daith maes i wirio y byddai amgylchedd afon neu arfordirol yn ddiogel. Roedd atebion llwyddiannus eraill yn gwerthuso defnyddio data a gasglwyd ymlaen llaw (naill ai gan ddisgyblion ysgol neu ddata a gyhoeddwyd ar wefan) a oedd yn caniatáu iddynt ymchwilio i sut roedd rhywbeth wedi newid dros amser. Er enghraifft, defnyddio data eilaidd o arolwg cerddwyr a gynhaliwyd yn 2006. Yna, gellid nodi gwendidau penodol, megis y ffaith bod union leoliad neu amser casglu'r data eilaidd yn anhysbys a bod hynny'n arwain at broblemau â dibynadwyedd.

C2(a) - AA3 : 10 marc

Cafwyd amrediad enfawr o atebion rhwng canolfannau ac o fewn canolfannau, ond ychydig iawn yn y band uchaf. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn ennill marciau Band 3 ar ôl ymateb i wahanol ofynion y cwestiwn.

Nid oedd yr atebion gwannaf yn rhoi unrhyw ddata mewn tabl. Mewn achosion eraill, roedd yr ymgeiswyr yn gor-gymhlethu'r tabl hwn ac yn treulio gormod o amser yn rhoi manylion am bopeth yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn yr oedd ei angen arnynt i gwblhau eu graff. Yn y ddau achos, nid oedd hyn yn helpu'r ymgeiswyr i ddewis a chwblhau graff neu fap manwl gywir.

Defnyddiodd ymgeiswyr y ffyrdd canlynol o gyflwyno data yn llwyddiannus i gynrychioli naill ai llifoedd neu fath arall o ddata am ffactor a oedd yn effeithio ar lif:

- Graffiau gwasgariad.
- Mapiau llinellau â saethau cyfraneddol i gynrychioli traffig neu gerddwyr.
- Siartiau cylch wedi'u lleoli ar fap sylfaen.
- Graffiau clystyru gwasgariad / graffiau blwch a wisgers i gynrychioli maint cerigos.
- Diagramau rheidiol i gynrychioli data o indecs ansawdd amgylcheddol – a ddefnyddir i ganfod pam mae mwy o gerddwyr mewn rhai ardaloedd trefol nag eraill.

Roedd nifer sylweddol o fyfyrwyr yn gwneud camgymeriadau wrth ddewis arddull graff addas. Dyma rai mathau o gamddealltwriaeth a welwyd yn aml:

- Diagramau trawstoriad wedi'u lluniadu a'u pen i lawr (h.y. â'r rhifau'n mynd i fyny yn hytrach nag i lawr ar yr echelin-y) fel bod gwely'r afon yn edrych fel bryn.
- Defnyddio graffiau llinell i uno gwahanol safleoedd e.e. maint cerigos neu lifoedd cerddwyr mewn gwahanol leoliadau.
- Lluniadu graffiau gwasgariad (ac ychwanegu llinellau ffit gorau) â dim ond tri phwynt data.
- Graffiau llinell â bwch rhwng yr echelin-y a'r pwynt data cyntaf ar yr echelin-x.
- Roedd lleiafrif o'r ymgeiswyr heb luniadu'r graff ar y tudalennau pwrpasol yn y llyfryn atebion, ond wedi cynnwys dalen graff ar wahân, yn groes i ofynion y cwestiwn.
- Roedd rhai ymgeiswyr wedi lluniadu graff ymlaen llaw a oedd wedi'i farcio gan athro/athrawes, ond wedi cyflwyno hwn fel ateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn gwneud datganiad dilys ynglŷn â'r patrwm neu'r duedd ond ychydig iawn o'r atebion a lwyddodd i geisio meintiol'r newid. Er enghraifft, 'llif cerddwyr yn dyblu o x i y'.

Roedd yr ymgeiswyr gorau'n gallu defnyddio eu data eu hunain i ymhelaethu ymhellach ar bwyntiau trafod wrth drafod tuedd eu graff.

C2(b) - AA2 8 marc

Roedd y gorchymyn 'gwerthuswch y technegau' yn ffactor gwahaniaethu allweddol i ganlyniadau'r cwestiwn hwn. Roedd o leiaf hanner yr ymgeiswyr yn troi at ddisgrifio beth roedd gwahanol graffiau'n ei ddangos am eu hymchwiliad yn hytrach na gwerthuso cryfderau a gwendidau fel techneg.

Roedd y cwestiwn yn gofyn am ddewis tri o fapiau / graffiau neu dablau eraill o bortffolio gwaith maes. Roedd gormod o ymgeiswyr wedi dewis a cheisio gwerthuso mwy o dechnegau.

Roedd gwerthusiad penodol i'r map neu'r graff ei hun yn allweddol i gyrraedd y bandiau uwch. Cafwyd gormod o atebion generig, oedd bron yn edrych fel eu bod wedi eu copïo o ymateb gwerslyfr safonol. Nid ymarfer dysgu datganiadau generig ar y cof yw hwn, ac mae angen gwerthuso'r profiad gwaith maes gwirioneddol ar lefel uwch, gan gynnwys cryfderau a gwendidau.

C2(c) - AA1.2 : 6 marc

Cafwyd rhai atebion da iawn i'r cwestiwn hwn, a'r ymgeiswyr yn dewis gwybodaeth yn ofalus o'u portffolio gwaith maes i wneud cysylltiadau yn eu casgliadau ag egwyddorion a damcaniaethau daearyddol. Mewn enghreifftiau eraill a gafodd farciau band is, roedd ymgeiswyr yn ysgrifennu esboniadau hirfaith heb ddefnyddio tystiolaeth o'u hymchwiliadau eu hunain i ategu eu canfyddiadau. Fodd bynnag, llai a ddefnyddiodd ffynonellau eilaidd i ategu eu casgliadau.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn methu â deall arwyddocâd 'casgliad' sef y gallu i ddefnyddio tystiolaeth i ategu datganiad cyffredinol sy'n dod â gwahanol linellau ymholi at ei gilydd. Yn yr achosion hyn, roedd yr ymgeiswyr yn ysgrifennu rhestri o ddatganiadau syml, gyda neu heb gymorth tystiolaeth heb roi dim esboniad o'u canfyddiadau nac awgrymu rheswm drostynt.

Felly, un ffactor gwahaniaethol clir o ran methu â chyrraedd Band 3 oedd methu â chynnwys manylion penodol ynglŷn â'u gwaith maes yn eu hatebion. Mae'n ymddangos bod rhai canolfannau/ymgeiswyr yn drysu rhwng beth yw gwerthusiad a beth yw casgliad.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk